OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 989 (Cy.138)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*2 Ebrill 2003*
Yn dod I rym - -	*1 Mai 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, gan arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, ac wedi cyflawni'r ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelu Bwyd Ewropeaidd ac yn gosod y gweithdrefnau ar faterion diogelu bwyd(**3**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Mai 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gynwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001

2. Diwygir Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001(**4**)) yn unol â rheoliadau 3 i 6.

3. In rheoliad 2 (dehongli), ar ôl y diffiniad "y Gyfarwyddeb Deunyddiau Porthiant" ym mharagraff (1) mewnosoder y diffiniad canlynol —

> ystyr "y Gyfarwyddeb Orfodi" ("*the Enforcement Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 95/53/EC sy'n sefydlu'r egwyddorion sy'n llywodraethu trefn archwiliadau swyddogol ym maes maeth anifeiliaid(**5**) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/20/EC(**6**), Cyfarwyddeb 2000/77/EC o Senedd Ewrop a'r Cyngor(**7**) a Chyfarwyddeb 2001/46/EC o Senedd Ewrop a'r Cyngor(**8**));".

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. O dan Erthygl 3 of Reoliad (EC) Rhif 178/2002 (OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1) mae'r ymadrodd "food law" yn ymestyn i fwyd a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir iddynt.
(**4**) O.S. 2001/343 (Cy. 15), fel y'i diwygiwyd gan O.S.2002/1797 (Cy. 172).
(**5**) OJ Rhif L265, 8.11.95, t.17.
(**6**) OJ Rhif L80, 25.3.99, t.20.
(**7**) OJ Rhif L333, 29.12.2000, t.81.

4. Yn y ddau reoliad 7(1) a 24(1), yn lle'r ymadrodd "and the Feeding Stuffs (Amendment) (Wales) Regulations 2002" rhodder yr ymadrodd ", the Feeding Stuffs (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and the Feeding Stuffs (Amendment) (Wales) Regulations 2003.".

5. Yn rheoliad 12 (rheoli porthiant a deunyddiau porthiant sy'n cynnwys deunyddiau annymunol), yn lle paragraff (9) rhodder y paragraff canlynol —

"(9) Os oes gan berson y mae paragraff cyntaf Erthygl 16a o'r Gyfarwyddeb Orfodi yn gymwys iddo dystiolaeth bod unrhyw ddeunydd porthiant a bennir yng ngholofn 2 o Bennod A o Ran II o Atodlen 7, y mae wedi ei ddwyn i Gymru o drydydd gwlad neu wedi ei gylchredeg ac y mae ef yn ei ddal neu'n berchen arno, yn cynnwys unrhyw sylwedd a bennir yng ngholofn 1 o'r Bennod honno yn fwy na'r lefel a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn 3 o'r Bennod honno, rhaid iddo —

(a) hysbysu'r Asiantaeth a'r awdurdod y mae dyletswydd ganddynt, yn rhinwedd adran 67(1A), orfodi Rhan IV o'r Ddeddf mewn perthynas â'r deunydd porthiant o dan sylw; a

(b) rhoi iddynt yr wybodaeth a bennir yn ail baragraff Erthygl 16a o'r Gyfarwyddeb Orfodi.".

6. Yn Atodlen 3 (ychwanegion a ganiateir a darpariaethau ynghylch eu defnyddio) —

(a) yn lle'r troednodyn i Ran VII o'r Tabl (cyffeithyddion a ganiateir) rhodder y troednodyn canlynol —

"(1) Note also that (as referred to in Part IX of this Table) one preservative is permitted by virtue of Commission Regulation (EC) No. 1594/1999(**9**) and one by Commission Regulation (EC) No. 1252/2002(**10**))."; a

(b) yn lle'r darpariaethau yn Rhan IX o'r Tabl (Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd y rheolir ychwanegion drwyddynt) rhodder y darpariaethau a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Diwygio Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999

7.—(1) I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, caiff Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999(**11**) eu diwygio yn unol â pharagraffau 2 a 3 o'r rheoliad hwn.

(2) Ym mhob un o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff 3, yn lle'r ymadrodd "and the Feeding Stuffs (Amendment) (Wales) Regulations 2002" rhodder yr ymadrodd ", the Feeding Stuffs (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and the Feeding Stuffs (Amendment) (Wales) Regulations 2003".

(3) Dyma'r darpariaethau: rheoliadau 7(2) a (4), testun is-adran (8) o adran 67 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**12**) fel y'i haddaswyd gan reoliad 9 a thestun is-adran (17) o adran 76 o'r Ddeddf honno fel y'i haddaswyd gan reoliad 10.

Diwygio Rheoliadau Porthiant (Sefydliadau a Chanolwyr) 1999

8.—(1) I'r graddau y maent yn gynwys i Gymru, caiff Rheoliadau Porthiant (Sefydliadau a Chanolwyr) 1999(**13**) eu diwygio yn unol â'r paragraff 2 yn y rheoliad hwn.

(**8**) OJ Rhif L234, 1.9.2001, t.55.
(**9**) OJ Rhif L188, 21.7.1999, t.35.
(**10**) OJ Rhif L183, 12.7.2002, t.10.
(**11**) O.S. 1999/2325.
(**12**) 1970 p.40.
(**13**) O.S. 1999/1872, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2253 (Cy. 163) ac O.S. 2002/1797 (Cy. 172).

(2) Ym mharagraff (2) o reoliad 2 (diffiniad "porthiant" a diffiniadau perthnasol a dehongli cyffredinol), ar ddiwedd y diffiniad "Directive 95/53" ychwaneger y geiriau ", Directive 2000/77/EC of the European Parliament and of the Council and Directive 2001/46/EC of the European Parliament and of the Council".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**14**))

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

2 Ebrill 2003

(**14**) 1998 p.38.